

Pwy sy'n gwneud penderfyniadau?

Senedd Cymru

Mae Aelodau'r Senedd yn eistedd yn Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Mae 60 Aelodau yn y Senedd, ac maen nhw'n cael eu hethol bob 5 mlynedd. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau ar faterion fel gofal iechyd, cludiant cyhoeddus, a beth rydych chi'n dysgu amdano yn yr ysgol. Dim ond rhai o'r materion mae Aelodau'r Senedd yn gyfrifol amdany'n nhw yw rhain. Yn y gorffennol, aelodau Senedd San Steffan yn Llundain oedd yn gyfrifol am y pethau yma i gyd, ond yn 1997 dewisiodd bobl Cymru i gael Senedd eu hunain fel eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau am rhai o'r pethau sy'n eu heffeithio nhw. Enw'r proses yma yw datganoli.

Dyma restr o'r meysydd y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru / y Senedd wneud penderfyniadau amdany'n nhw:

- Amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Diwylliant
- Datblygu economaidd
- Addysg a hyfforddiant
- Yr amgylchedd
- Gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch rhag tân
- Bwyd
- Iechyd a gwasanaethau iechyd
- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Tai
- Llywodraeth leol
- Gweinyddiaeth gyhoeddus
- Lles cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Cynllunio gwlad a thref
- Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd

- Yr iaith Gymraeg

Dau Dŷr Senedd y Deyrnas Unedig (San Steffan)

Mae Dau Dŷr Senedd yn San Steffan yn Llundain, ac yn cynnwys dwy siambr: Tŷr Cyffredin a Thŷr Arglwyddi. Mae Aelodau Seneddol y Deyrnas Unedig yn cael eu hethol i eistedd yn Nhŷr Cyffredin. Mae Dau Dŷr Senedd yn gwneud cyfreithiau a phenderfyniadau ar feysydd **sydd ddim** wedi eu datganoli i'r Senedd yng Nghymru, a'r enw ar y rhain yw pwerau wedi'u neilltuo. Mae Aelodau Seneddol y Deyrnas Unedig yn cael eu hethol mewn etholiad cyffredinol, sydd fel arfer yn digwydd bob 5 mlynedd

Dyma'r pwerau wedi'u neilltuo y mae Dau Dŷr Senedd yn gwneud penderfyniadau amdanyh nhw. Enw'r rhain yw 'pwerau wedi'u neilltuo'.

- Trosedd a chyfiawnder
- Materion Amddiffyn (sut mae'r Deyrnas Unedig yn amddiffyn eu hun)
- Materion Tramor (sut mae'r Deyrnas Unedig yn cyfathrebu gyda gwledydd eraill ac yn gweithio gyda nhw)
- Mewnfudo
- Polisi Masnach (sut mae busnesau y Deyrnas Unedig yn prynu a gwerthu nwyddau)
- Darlledu (rheolau am y cynnwys rydyn ni'n gwyllo a chlywed ar y teledu, y radio, ac arlein)

Cynghorau Lleol

Pwerau i wneud penderfyniadau am ardal leol.

Mae gan Gymru 22 o gynghorau. Mae cynghorau'n cynnwys cynghorwyr sy'n cael eu hethol bob 4 blynedd mewn etholiadau lleol.

Dyma restr o'r pethau mae cyngor lleol yn gwneud penderfyniadau amdanyh nhw:

- Cynllunio a rheoli adeiladu
- Addysg
- Safonau masnach
- Trwyddedu alcohol, adloniant a gamblo
- Iechyd a diogelwch
- Llyfrgelloedd, hamdden a thwristiaeth
- Iechyd yr amgylchedd, gwastraff ac ailgylchu
- Trafnidiaeth a phriffyrdd
- Tai
- Gwasanaethau cymdeithasol

Cynghorau Cymuned

Hefyd mae 730 o gynghorau cymuned yng Nghymru, sy'n gallu bod yn gyfrifol am rhwng 200 a 45,000+ o bobl. Efallai bod eich cyngor lleol yn gyfrifol am faterion sydd ond yn effeithio ar eich cymuned leol, er enghraifft, eich parc lleol.

Â phwy dylech chi gysylltu

Mae'n gallu bod yn anodd gwybod ai cyfrifoldeb i Senedd Cymru, Dau Dŷ'r Senedd yn San Steffan, neu Gyngor Lleol yw'r mater rydych chi eisiau ei newid. Edrychwch ar y rhestrau o bwerau, a meddyliwch pwy byddai'r person gorau am y mater rydych chi eisiau ei drafod. Mae'n werth gofyn i'ch athro, neu oedolyn arall rydych chi'n trystio, eich helpu chi. Hefyd gallwch chi gysylltu â mwy nag un o'r sefydliadau yma ar yr un pryd.

Awgrym gwych

Defnyddiwch 'cc' i anfon copi o'r llythyron rydych chi'n eu hanfon at ASau neu ACau at y Comisiynydd Plant. Mae hynny'n helpu'r Comisiynydd i wybod beth rydych chi eisiau ei newid.